# CWLWM

**MAI**

**2022**

Rhif 67

**Golygydd:**

**Einir Jones**

**Pris 50c**



***Taflen Gyswllt Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru***

***Cynnwys***


***Golygyddol***

***Adroddiad Glyn Nest***

***Cymorth i Rwmania – ac Iwcrain***

***Llundain yn y Chwedegau***

***Gwaith Betty Jones, Capel Penbryn***

***Newyddion o'r Tabernacl, Caerdydd***

***Rhannu gyda Phlant Crymych.***

***Zoom a Fi***

***Monacella***

***Fy Mhrofiad Gydag Eliffantod***

***Adroddiad yr Ysgrifennydd***

***Torth Weetabix***

# Golygyddol

Ydych chi'n cael pethau trwy'r post? Taflenni pitsa a gwybodaeth gan gwmnïoedd gwella tai, mae nhw'n dod yn llu lliwgar a rheolaidd. Hysbysebion a chyfarwyddiadau teithio am le rydd siampŵ a set i'r ci drosoch neu pa beth sydd yn rhad yn Farmfoods ar hyn o bryd. Mae nhw i gyd yn ceisio cael eich sylw i brynu neu i gael rhywbeth ganddyn nhw. Ond ers tua wyth mis bellach rydwi'n derbyn amlen fawr A4 gan un elusen arbennig, a bob rhyw ddeufis rwy'n cael nid yn unig wybodaeth ar bapur ond anrheg fechan. Calendr. Pâr o fenyg. Blanced gynnes fechan. Ambarel hyd yn oed! A'r mis hwn mi gefais fag siopa hardd gyda golygfa o bont ac afon a thai amryliw ar ei glan lâs. Mae'r elusen am i mi roi rhywbeth iddyn nhw wrth gwrs. Arian. Swm penodol am unwaith neu am fisoedd. *Sprat to catch a mackrel* yw hi.

Ond am bod y bag yma yn arbennig o hardd – a defnyddiol – yn fy ngolwg i, rwy am gyfrannu y tro yma. Yn lle taflu'r wybodaeth i'r ailgylchu a rhoi'r stwff i'r Groes Goch rwy'n mynd i ddanfon rhywbeth iddynt.

Fe ddywedodd William Temple, "The Church is the only institution that exists primarily for the benefit of those who are not its members.". Hollol a pherffaith wir pan ddarllenwch chi'r efengyl. Y drafferth yw gyda ni gapelwyr ein bod ni'n cyfyngu ein golygon at aelodau yn unig am ryw awr yr wythnos o bosib! Mae yna fyd mawr a phentrefi bychan o'n cwmpas mewn angen dybryd. Nid yn unig am bethau, ond am fywyd yn ei holl gyflawnder. A sut mae ennill y byd hwnnw? Trwy fod yn hael. Trwy roi. Trwy rannu pethau, amser, adnoddau, ac os nad oes gennym ni ddim byd arall, ein gwenau.

Nid clwb i NI yw'n capel NI i fod ond cymdeithas o gariad sy'n gwneud fel y dywedodd y *Boss* wrthym. Derbyniasoch yn rhad, rhoddwch yn rhad. Rhaid i ni roi fel y rhoddodd Duw heb ddim ymateb o gwbwl am flynyddoedd efallai.

*Sprat to catch a mackerel?* Ie. Ond o hir roi pwy ŵyr na fydd ymateb rhyw dydd?

Chi a fi yw'r UNIG Destament Newydd y bydd ein cymdeithas a'n byd yn ei agor byth o bosib. Felly gadewch i ni wneud yn siwr ein bod yn rhannu cariad Iesu. Ac efallai yn wir, o hir roi a hir ymaros a gweddïo y bydd ymateb! Fe weithiodd arna i beth bynnag!

Einir Jones (Gol.)

Os garech gyfrannu i'r rifyn nesaf gydag erthygl, cerdd, emyn, hanes a.y.y..b., anfonwch i'r cyfeiriad arferol os gwelwch yn dda.

**Carn Ingli, 97 Ffordd y Coleg, Rhydaman. SA18 2BT**

Neu ebost:

einir.jones@yahoo.co.uk / jtalfryn@yahoo.co.uk

---

# Adroddiad Glyn Nest

**gan**

**Y Parchg Irfon C. Roberts**

**(Cadeirydd Glyn Nest)**



Bu Glyn Nest fel llawer cartref arall drwy gyfnod anodd yn ddiweddar. Nid cyfrinach o gwbl yw hi fod pob rhan o'r Sector Gofal o dan bwysau'r dyddiau yma. Yr hyn sy'n ein poeni fwyaf yw prinder staff. Er hysbysebu a chynnal cyfweliadau cyson profodd cadw'r nifer gweithwyr ar y lefel sydd ei angen i wneud tegwch â'r deiliaid yn anodd. Bu rhaid gwneud y penderfyniad anodd yn ddiweddar i leihau'r nifer deiliaid yn y gobaith y llwyddir yn y dyfodol agos i gyflogi rhagor o weithwyr. Gorfod i'n staff yn ystod y misoedd diwethaf weithio oriau maith i wneud i fyny'r diffyg ac maent i'w canmol am fodloni ar lawer achlysur am gerdded yr ail filltir, neb mwy felly na'n Rheolwraig, Jayne Evans.

Rhaid talu teyrnged yn ogystal i aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr am eu hymroddiad llwyr i'r dasg o gadw arolygaeth fanwl o'r sefyllfa. Un o gyfrinachau llwyddiant y Cartref yw'r unoliaeth amcan yn ein plith a'r cydweithio hapus rhyngom.

Does dim angen pêl risial i ddarogan fod dyddiau anodd o'n blaen ond carwn eich sicrhau ein bod fel cyfarwyddwyr yn benderfynol i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau dyfodol y Cartref. Os ydym i lwyddo bydd angen eich cynhorthwy arnom yn fwy nag erioed. Mae gwaith adnewyddu ar yr adeiladau, ac aeth y lifft i oed gyda'r canlyniad y bydd rhaid gwario £60,000 man lleiaf ar sicrhau un newydd. Clywsoch ddweud droeon mae'n siŵr mai 'lleidr yw tŷ'. Mae'n anodd meddwl am un gwirionedd sy'n sicrach. Gwyddoch eich hunain i gostau gwresogi a goleuo gynyddu y tu hwnt i bob rheswm. Gwerthfawrogwn wrth gwrs fod achosion eraill yn galw am gefnogaeth ein heglwysi. Dylid cofio fodd bynnag mai Cartref yn enw'r Bedyddwyr yw Glyn Nest a bod gennym o ganlyniad ddyletswydd i'w gefnogi hyd eithaf ein gallu.

Bydd yn dda gennych ddeall i Siân Elin Thomas setlo i'w gwaith fel Caplan yn dda. Mae'n boblogaidd gyda'r staff a'r deiliaid a'i gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi gan deuluoedd y deiliaid. Beth am ei gwahodd i'ch Cymanfa i rannu ei phrofiad o'r gwaith gyda chynrychiolwyr yr eglwysi?

Gyda thristwch y nodaf i ni golli gwasanaeth Helen Pope, Dirprwy Reolwraig y Cartref, a merch y Parchedig Gareth Morris. Ar ôl blynyddoedd o wasanaeth ffyddlon i'r Cartref penderfynodd Helen newid cyfeiriad. Er gweld eisiau ei chyfraniad tawel ac effeithiol a'i cholli'n fawr hoffem ddymuno'n dda iddi yn ei gwaith newydd.

Dechreuwyd llacio'r rheolau ynglŷn â chyfyngiadau Covid. Er diogelwch y staff a'r deiliaid fodd bynnag erys rhai ohonynt mewn grym. Os am ymweld â Glyn Nest, byddai'n ddoeth, er diogelwch pawb, gysylltu â'r Rheolwraig yn gyntaf.

Er anodded y ddwy flynedd olaf hyn a'r pwysau cynyddol arnom i wneud rhai penderfyniadau anodd, ni'n digalonnwyd o bell ffordd. Daliwyd ati drwy'r cyfan a phrofwyd llawer bendith; nid y lleiaf ohonynt gwmnïaeth a chefnogaeth ein gilydd.

Ymffrostiwn nid yn ein hunain ond yn yr hwn a'n galwodd ac a'n cynhaliodd hyd yma. Boed iddo barhau i'n cynnal a'n harwain er mwyn y rhai ddaw eto i dderbyn eu hymgeleddu gan ein henwad annwyl. Yr hyn yw Glyn Nest i mi yw breichiau teulu'r Bedyddwyr o gylch y bregus a'r gwan.

"Tad yr amddifad ac amddiffynnydd y gweddwon yw Duw"
Salm 68:5

“ Gofalwch dros yr amddifad, a chymerwch blaid y weddw.”
Eseia 1:17




*Cymun y Pasg yng Nglyn Nest*




*Addurn Pasg Glyn Nest*




*Taflen Cymundeb Cofio Iwcrain*



*Oedfa Dydd Sant Ffolant*

# Cymorth i Rwmania – ac Iwcrain

**Einir Jones**

Mae tref Dorohoi yn Ngogledd-ddwyrain Rwmania tua 15 milltir o'r ffin gydag Iwcrain. Cynrhaeddodd cannoedd o ffoaduriaid y dref ar eu ffordd am wledydd y Gorllewin ar ddechrau'r rhyfel hwn rai misoedd yn ôl bellach. 'Dyw pobl Dorohoi ddim yn gyfoethog o bell ffordd eu hunain cofiwch. Mae Romanian Aid wedi bod yn gyrru nwyddau ac arian allan yno ers blynyddoedd. Wedi cwymp Comiwnyddiaeth aeth yn haws teithio ac mae loriau Romanian Aid yn gyrru yno yn gyson ers 1992. Ond er mor anghennus a thlawd yw Rwmania ac yn enwedig ardal Dorohoi, mae'r bobl yno yn gwneud eu gorau i helpu'r rhai gyrhaeddodd atynt o'r wlad dros y ffin, y rhai sy'n ffoi ac heb ddim.

Dyw gwlad Rwmania ddim yn gyfoethog ac mae safonau byw yno yn ddigon tebyg i rai yma yng Nghymru ddechrau'r ganrif ddwethaf. Trol a cheffyl yn aml sy'n cael eu defnyddio ar gyfer teithio o amgylch ac mae tlodi ac angen, diffyg gofal iechyd a bwyd maethlon ynghyd â diffyg addysg yn achosi trafferthion dibendraw. Ond mae Romanian Aid wedi bod wrthi yn helpu a Mr Paul Hare a'i wraig Gloria o Benllergaer yn casglu defnyddiau o bob math ar gyfer eu rhannu gyda'r rhai mewn angen. Dillad gwely, tywelion, dillad pobl a phlant, esgidiau, llenni, blancedi, yn bethau newydd ac ail-law, mae'r cyfan yma yn dderbyniol, ac yn arbennig hefyd mae angen defnyddiau ymolchi, stwff ar gyfer babanod, tabledi a moddion lladd poen ar gyfer y rhai sydd wedi ffoi heb ddim.

Fan hyn hoffwn i roi diolch arbennig i ddwy weuwraig dalentog sy'n byw yn y cylch yma.



*Mr Meriel Roberts*

Anfonodd Mrs Meriel Roberts Tycroes (gwraig y Parchedig Glan Roberts) bentwr o siwmperi a chardigans allan gyda'r llwyth aeth cyn y Nadolig, ac fe gefais lond bag o sgarffiau a chapiau i blant o bob oedran gan Mrs Mary Watkins, llynedd ac eleni.





*Mrs Mary Watkins, Rhydaman*

Gan nad ydw i'n dda am wau fy hunan, roedd cael stwff gan y ddwy yma yn ardderchog. Rwy'n sicr bod plant Rwmania a ffoaduriaid o'r Iwcrain yn mynd i elwa o'u dawn a'u diddordeb a'u caredigrwydd. Diolch arbennig i'r ddwy.

Casglodd pobl Rhydaman lwyth o stwff cyn y Nadolig llynedd ac fe ddaeth Mr Hare ffyddlon i'w mofyn bryd hwnnw yn ei fan goch. Roedden ni – cyn y Covid – yn arfer llenwi bocsys esgidiau gyda menyg a chapiau a thegannau a melysion ar gyfer plant Rwmania. Ond daeth cyfyngiadau ar deithio rhwng gwledydd. Er hynny, pan godwyd y cyfyngiadau ac ail-agor ffiniau, er gwaethaf Brexit a phob problem, ail ddechreuwyd ar y rhannu rhyngwladol. Mae'r defnyddiau sydd yn y bagiau yn cael eu hafnon i warws ym Mhenybont ar Ogwr lle cânt eu dosbarthu a'u trefnu ar gyfer eu cario i lawr trwy Ewrop mewn *container lorries* enfawr. Y tro hwn bu raid i Mr Hare wneud dwy daith i mofyn y bagiau oedd yn hanner llenwi stafell y Diaconiaid. Bydd yn dod am y llwyth olaf ar Fai 9fed yma.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bobl Rhydaman a'r cylch, o bob enwad ac o r'un. Fe ddaeth bageidiau lawer hefyd o Ystradgynlais ac o Gwmgiedd a diolch o bawb gyfrannodd mor hael o bobman. Rydych chi wedi bod yn garedig ac wedi gwneud gwahaniaeth mewn bywydau, a mawr fydd eich gwobr meddai'r Meistr. Bu cyfeillion a dieithriaid ar sawl bore Iau yn cario bageidiau o stwff i mewn i Festri Ebeneser er mwyn helpu trueiniaid ddwy fil o filltiroedd i ffwrdd. Diolch hefyd i Gloria Jones am fod yn gyfrifol am roi'r holl wybodaeth angenrheidiol yn wythnosol ar dudalen facebook y capel, ac i'r swyddogion a'r diaconiaid am glosio at ei gilydd pan nad oedd llawer o le ar fore Sul! Fe fyddwn yn trefnu casgliad arall o stwff eto tua mis Medi o bosib a daw gwybodaeth ar y dudalen facebook. Cafwyd arian a sieciau am gyfanswm o £300 hefyd gan garedigion hael. Bendith arnoch oll a bendith arbennig i bobl Rwmania a'r Iwcrain.

*Canys rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu.*

*Ystafell y Diaconiaid yn llawn bagiau*



*Y llwythwyr! Mr Paul Hare*
*o’r Romanian Aid Organisation*
*a David Evans a Gloria Jones.*



*Y fán yn llawn bron .*
*Llwyth cyntaf yn Ebrill eleni.*

# Llundain yn y Chwedegau

## Rosemary Morgan



*Llun: Evan a Rosemary Morgan*
*ebwu.org*

Wrth i mi agosáu i orffen fy nghwrs yn y Coleg, daeth Ysgrifennydd y Capel ataf i ddweud yn gyfrinachol iawn pan fyddem yn chwilio am ysgol, i ddod i siarad ag ef, a bydde fe yn medru chwilio ysgol i fi, adref yn y Sir ! Yr oedd ganddo swydd 'uchel iawn' - yn ôl mam - yn Adran Addysg y Sir. Diolchais iddo yn fawr iawn, a gofynnais iddo i beidio dweud dim wrth fy nhad am y cynnig; oherwydd yr oeddwn eisioes wedi llanw ffurlenni i gael swydd yn Llundain gydag Adran Addysg Middlesex. Ar ôl cael cyfweliad, bu Pwyllgor Addysg Middlesex yn garedig iawn: cefais fy hun mewn ysgol gynradd yng Ngogledd Llundain yn Southgate N14. A dyma fi, ar ddechrau y Chwedegau yn Llundain!

Cafodd ffrind o'r coleg a mi le i aros, felly roeddwn yn barod am y sialens newydd. Yr oedd yr ysgol yn gymharol newydd wedi ei hadeiladu yng nghanol tai dosbarth canol. Ochr arall yr heol roedd rhes o siopau bach: Swyddfa Bost, Cigydd, Siop Papur Newydd, Fferyllydd, Siop Fara, a Siop Ffrwythau a Llysiau; ac 'roedd y bws 125 yn mynd â fi bron i'r drws.

Daeth mis Medi a dechrau'r tymor! Diwrnod cyn cwrdd â'r dosbarth, roeddwn yn cyfarfod â'r brif athrawes, ac wedyn cefais fy nghyflwyno i aelodau o'r staff: 3 chwaer a 4 dyn, pob un yn ganol oed ac yn Saeson! Diwrnod wedyn daeth y foment fawr - cwrdd â'r plant! Daethant i mewn yn gwenu ac yn llon iawn, 40 ohonynt, pob un yn gwisgo siwmper o las brenhinol, crys gwyn a tei yr ysgol, y merched â sgyrt llwyd, a'r bechgyn mewn trwsus byr llwyd. Rhaid dweud roeddent yn smart iawn. Wrth i mi fynd lawr y Cofrestr roeddent yn codi llaw i mi cael eu hadnabod.

Aeth y diwrnod cyntaf yn weddol dda yn fy nhyb bach i! Daeth yr ail fore a'r plant yn dod i mewn gyda tipyn mwy o sŵn, ac oeddwn yn cofio rhai o'r enwau; Sara, Graham, Jonathon, Ruth, Andrew, Miriam, Veronica, David, Claire, Daniel. Daeth y trydedd bore a'r plant yn dod i mewn, ac wrth edrych o gwmpas, roedd y dosbarth i'w weld yn hanner gwag! Meddyliais beth ydwyf wedi ei wneud nawr! Ac yn mynd ymlaen ar garlam a meddwl byddaf ar y trên adref fory wedi cael y '*sack*'. Dyma ofyn i'r dosbarth 'Ble mae pawb heddi?' daeth yr ateb nôl yn syth '*Synagog*'*!* Wrth gwrs, roedd yr enwau Beiblaidd yn perthyn i'r Iddewon, ond hefyd yr enwau Saesneg gyda chyfenwau fel Stern, Goldstein, Levy, Friedman.

*Synagog?* gofynnais, '*Yes Jewish New Year*' a llais arall yn dweud '*Rosh something*' Dyma lais bach yn dweud 'Byddan' nhw ddim yma wythnos nesaf chwaith, mae yn '*Yom Kippur*!' Daeth dydd Llun a pawb nôl –tan yr Ŵyl nesaf!.

Dysgais dipyn am y grefydd a'r ffordd Iddewig o fyw, a'r gwyliau: *Sukkot* yn dathlu y cynhaeaf, *Hanukkah* a'r goleuadau bach, *Purim* i wneud gyda achub yr Iddewon, yr hanes yn Llyfr Esther, *Passover*, *Shauvot* – ble oedd y plant yn adeiladu pabell fach allan o ganghennau, brigau a dail, a blodau i ddathlu Gŵyl y ffrwythau cyntaf.

Doedd yr Iddewon ddim yn dod i Wasanaeth Cristnogol yn y bore, a byddent yn cyfarfod mewn un ystafell ble byddent yn dod gyda llyfrau i ddarllen yn dawel; roedd yr athro i fod i'w cadw nhw yn dawel, tra byddai hi neu fe yn cario mlaen â marcio. Ond os na fyddai yn llwyddo oedd pethau yn mynd yn anrhefn llwyr!

Roedd y Brif Athrawes yn Flaenor yn un o'r Eglwysi Presbyteraidd mawr yng nghanol Llundain a galwodd y Rabbi i mewn i'r ysgol gan fod ei ferch gyda ni. Awgrymodd i'r Rabbi y byddai yn well o lawer os byddent yn cynnal Gwasanaeth Iddewig hefyd. Erbyn diwedd yr wythnos roedd 'na ddigon o lyfrau Gwasanaeth i bob plentyn, ac fe ddaeth i gynnal y gwasanaeth cyntaf ei hunan. Roedd y bechgyn i gyd yn mynd i '*Shul*' i'r Synagog i ddysgu Hebraeg, ac felly 'roedd y bechgyn i gyd yn gwisgo '*kippah*', sef cap bach ar eu pennau ac fe fyddent yn medru darllen yn Hebraeg yn eu Gwasanaeth Boreuol. Canu emyn wedyn a gweddi i orffen.

Roedd rhaid i un o'r athrawon fod yna i arolygu. Penderfynwyd gwneud rota, ond fe wrthododd un athrawes, 'No *I am not going to the YID'S Assembly – count me out!*' A dyna'r tro cyntaf i mi ddod wyneb yn wyneb â gwrth-semitiaeth! Ond nid y tro dwethaf chwaith tra bum yn Llundain am rhyw 35 o flynyddoedd.

(*Diolch i Rosemary – mae hi'n ddi-ffael yn dod â rhyw damed blasus i ni bob tro rwy'n mynd ar ei gofyn! Wyddwn i ddim am ei hamser yn Llundain ac rwy'n falch iddi ddewis rhoi ychydig o'i hanes yno i ni. Gol.)*

# Gwaith Betty Jones

# Capel Penbryn

**Betty Jones**

### Blwyddyn Newydd Dda

### Ionawr, 2022

Fe wawriodd blwyddyn newydd
Diflannu wnaeth yr hen.
Fe gawsom lu dathliadau
A dagrau, a sawl gwên.

Agorwyd drysau eto,
Teulu a ffrindiau'n cwrdd.
Roedd diolch mewn wynebau
A chwerthin 'gylch sawl bwrdd.

Fe gawsom eistedd allan
Yn haul yr haf, a mynd
I gapel ac i eglwys
A chyfarch sawl hen ffrind.

Ond cau wnaeth drws y carchar
A'r Covid ddaeth drachefn.
Ton led y byd o'r feirws
A chuddio oedd y drefn.

Ble cawn ni ateb eto?
Oes dyddiau gwell i ddod?
Ddaw blwyddyn llawn gobeithion
I ni ar droi y rhod?

Ymlaen yr awn mewn gobaith
Gan ddilyn Iesu Grist.
Fe fydd ein Tad y arwain
Ei blant trwy'r llon a'r trist.

## Pasg 2022

Mae'r Pasg yn adeg siocled
A wyau at bob dant
A chwilio yn y gerddi
A'r caeau mae y plant.

Daw lliw a chân yr adar
I'r gerddi yn ein bro
Ar ôl tywyllwch gaeaf
Daw'r gwanwyn yn ei dro.

Mae bywyd yn blaguro
Ac egin gwyrdd ar goed.
Ac ŵyn a ddaw i brancio
Ar gaeau'n ysgafn-droed.

Ond Oen ein Duw ddaeth hefyd
Ar Basg i achub byd.
Ei Fab a roddwyd drosom
I faddau'n beiau i gyd.

Ni allai'r bedd ei gadw.
Ar fore'r Trydydd Dydd
Yn ôl ei air, cyfododd
A dod o'r angau'n rhydd.

Mae'n gobaith mewn addewid
A wnaed gan Dduw ei hun,
Oherwydd croes Calfaria
Mae Bywyd i bob un.

---

# Newyddion o'r Tabernacl, Caerdydd

**Ruth Davies**

Ers sawl blwyddyn bellach mae Cyfarfod y Chwiorydd ar brynhawn Iau yn y Tabernacl wedi datblygu i fod yn 'Gymdeithas P'nawn Iau', ac y mae croeso i ddynion a merched fynychu! Ni fu'n bosibl i gyfarfod fawr yn ystod y cyfnod clo oherwydd y pandemig yn ystod 2020 a rhan helaeth o 2021. Erbyn Hydref 2021 fodd bynnag yr oedd mwy o obaith, a phenderfynwyd cwrdd yn fisol yn hytrach nag yn wythnosol.

Llwyddwyd i gynnal oedfa ddiolchgarwch i ddechrau tymor newydd y gymdeithas. Y thema oedd 'Enfys Gobaith'. Ble bynnag y mae enfys y mae gobaith. Y mae'n ymddangos pan ddaw'r haul allan wedi cawod o law. Caiff enfys ei defnyddio i'n hatgoffa fod yna olau ar ben draw'r twnel wedi cyfnod tywyll. Sumbol o obaith yw'r enfys, a does ryfedd felly ei bod wedi cael ei defnyddio'n eang yn ystod cyfnod y pandemig gan gefnogwyr y Gwasanaeth Iechyd.

Mae'n dangos ein gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth hwnnw a'r holl weithwyr a gofalwyr yn y maes. Canolbwyntiwyd ar faterion yn ymwneud ag iechyd yn ein hoedfa gan fod amryw o'n haelodau yn gweithio ac eraill wedi bod yn gweithio yn y maes iechyd. Roedd ein bwrdd diolchgarwch yn dra gwahanol eleni fel y gwelwch yn y llun: enfys yn y cefndir a phob math o eitemau sydd yn ymwneud ag iechyd yn creu arddangosfa oedd yn adlewyrchu'r thema yn effeithiol.

Cawsom glywed geiriau emyn newydd a gyfansoddwyd gan Margaret Rees, un o'n haelodau, ar y thema 'Ffydd, Gobaith a Chariad'. Geiriau oedd yn ysbrydoliaeth iddi ac yn hollbwysig yn ei bywyd, meddai. Cyfansoddodd yr emyn yn ystod y cyfnod clo, a chyfaddefodd Margaret fod y dasg wedi bod yn gymorth mawr iddi yn seicolegol wrth iddi gael canolbwyntio ar rywbeth cadarnhaol. Dyma eiriau'r emyn: **Emyn 2021**

Diolchwn i Ti, Arglwydd Dduw,
am d'ofal cyson yn ein byw,
pob bendith ddaw o'th ddwyfol law,
a grym gwirionedd saif gerllaw.

Cryfha ein ffydd ac arwain ni
at orsedd dy drugaredd cu,
a dyro nawdd yn ôl y dydd
er mwyn lliniaru'r gofid sydd.

Gad i ni weld ymhob rhyw bla
daioni dyn, ewyllys da,
y cyfeillgarwch sydd i'w gael
a sicrwydd gobaith yn ddi-ffael.

Tydi sy'n gwarchod enaid dyn
trwy ryfedd rinwedd Tri yn Un,
dy nerth a'th ras sydd foddion pur
A balm i leddfu loes a chur.

I Ti bo'r clod, o nefol Ri,
am dywallt cariad oddi fry,
ffydd, gobaith, cariad, calon lân,
a halelwia yw ein cân.

Cafwyd oedfa fendithiol iawn gyda nifer yn cymryd rhan, gan gynnwys datganiad ar y delyn gan Ann Williams. Braf oedd cael cymdeithasu dros baned a theisen wedyn.  Mae'r lluniau yn dweud y cyfan.

Ein prosiect diweddaraf yw gweu petryalau i greu blancedi ar gyfer elusen Canolfan y Glöwyr yng Nghaerffili, oedd yn apelio am rai i ymuno â'r prosiect gwau. Trosglwyddwyd nifer fawr o betryalau eisoes. Mae'r prosiect yn mynd o nerth i nerth, a'r blancedi'n cael eu gwerthfawrogi gan sawl elusen, yn cynnwys Llamau, sy'n cynorthwyo lloches i ferched yng Nghaerffili. Bydd un flanced yn cael ei rhoi yn anrheg i'r teulu cyntaf o Affghanistan i gael cartref ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

Cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi Bedyddwyr y Byd ddechrau mis Tachwedd, a chymerwyd rhan gan amryw o aelodau'r Tabernacl. Mae'n braf teimlo ein bod yn ymuno â chwiorydd eglwysi Bedyddiedig ar draws y byd i weddïo am y pethau hynny sydd o bwys mawr i bob un ohonom. 'Byw yn Ddewr' oedd thema'r Dydd Gweddi, ac yr oedd yn seiliedig ar adnod o'r Epistol at yr Hebreaid, pennod 13 ac adnod 6: 'Yr Arglwydd ydy'r un sy'n fy helpu i; fydd gen i ddim ofn. Beth all pobol wneud i mi?'





*Y bwrdd diolchgarwch yn y Tabernacl*

---

# Rhannu gyda Phlant Crymych

**Sian Elin**

Un o hoff bethau Sian Elin yw rhannu yr efengyl gyda plant a phobl ifanc. Mae ganddi lawer iawn o brofiad, am ei bod hi wedi gweithio mewn Ysgol Gynradd yng Nghrymych am bron i ugain mlynedd.

'Nôl ym mis Ebrill, cafodd Sian Elin y cyfle i rannu neges y Pasg gyda Ysgolion a Cylchoedd Meithrin ei hardal lleol.

Neges Jiwdas oedd gan Sian Elin i'r Ysgolion Cynradd. Defnyddiodd Bast Dannedd a Hanes Jiwdas i ddangos pwysigrwydd pwyllo wrth ddefnyddio ein geiriau. Roedd y plant wedi mwynhau wrth wneud llawer o lanast gyda'r Past Dannedd! Ond, doedd hi ddim yn siwr bod yr athrawon yn teimlo yr un peth!

Braf oedd gweld diddordeb y plant wrth iddyn nhw ddysgu am yr Wythnos Olaf drwy bersbectif Jiwdas.

Clywsom synau y Pasg yn y Cylchoedd Meithrin wrth iddyn nhw glywed hanes yr Wythnos Olaf. Sŵn yr Asyn, bwyta y Swper Olaf, y 30 darn arian, a'r dathlu mawr ar y Trydydd Dydd! Cafodd Sian Elin gymorth parod Dewi’r Draenog i ddweud y stori.

Diolch yn fawr i’r Ysgolion am ganiatau i Sian Elin i ddod i mewn i siarad gyda’r disgyblion.








(*Mae Sian Elin yn weinidog ar Gapel y Graig, Castell Newydd Emlyn ac Ebeneser, Dyfed, Eglwyswrw ers mis Medi diwethaf. Dymunwn iddi bob bendith yn ei gofalaeth a chyda’r gwaith arbennig mae hi’n ei wneud gyda phlant ysgolion lleol a chartref Glyn Nest. Mae canmol mawr iddi a chroeso fel un o gyfranwyr y Cwlwm. Gol*)

# Zoom a Fi

## Dinah Evans

Fe yrrodd Covid y wlad gyfan i gyfnodau clo yn 2020 ac fe newidiodd popeth yn y ffordd yr oedd Ron, fy ngŵr, a fi yn byw, yn union fel y newidiodd bywydau pawb arall wrth gwrs. Roedd bwyd yn cael ei archebu arlein ac yn cael ei gario at y drws gan y dyn yrrai'r fan i ffwrdd gan godi ei law o bell. Roedden ni'n siarad â'r teulu yn Llundain ar Facebook, yn cerdded i ben draw'r ardd ac yn mynd allan i ddrws y ffrynt unwaith yr wythnos i glapio ein diolch i'r NHS. Gan nad oedd r'un ohonom yn gorfod gweithio o gartref fe eisteddon ni ar y soffa a darllen a gwylio'r teledu a bwyta.

Yn araf fe ddaethom i sylweddoli na fyddai'r Clo yn darfod yn fuan ac y byddem ni fel hyn am gyfnod maith. Doedd hi ddim yn bosib gwneud y pethau arferol roedden ni yn arfer eu mwynhau gymaint, a fyddai hi ddim yn bosib cyfarfod gyda phobl eraill wyneb yn wyneb am gyfnod maith o bosib. Sôn am newid byd! Ond yna, yn sydyn, ar ffurf y Dylwythen Deg fwyaf anhebygol erioed, fe gyrhaeddodd Zoom!

Ar y dechrau roedd meddwl am ddysgu rhyw sgil newydd dechnolegol yn ddiflas, ond fel siopa arlein fe ddes i ddeall. A sôn am ryddid! Pan ddechreuodd y Clo roeddwn i yng nghanol ymchwilio i fywyd gwraig arbennig iawn o'r enw Gladys Thoday. Roedd hi'n fotanegydd, yn etholfreintwraig (suffragist) ac yn heddychwraig ac roedd ei phapurau i gyd yn Archifdy Prifysgol Bangor lle cefais eu gweld yn hawdd cyn y Clo. Ond roedd hi hefyd wedi treulio amser ym Mhrifysgol Manceinion ac roedd arnai eisiau gweld eu cofnodion hwy am ei hamser yno. Golygai cyfyngderau Covid wrth gwrs na allwn deithio yno, ond diolch i Zoom fe allwn eistedd yn y lolfa yn Llandegfan a gweithio fy ffordd trwy'r archifau ym Manceinion lle bu'r archifwraig garedig yn troi'r tudalennau i mi. Ardderchog!

Rwyf hefyd yn aelod frwdfrydig o Archif Gwragedd Cymru, elusen sy'n hybu safle pwysig gwragedd yn hanes Cymru. Pan fwriodd Covid ni roeddem ni yng nghanol nifer o brosiectau ymchwil ac yn arbennig un dan yr teitl *Setting the Record Straight.*

Ein gwaith cyn y Clo oedd casglu papurau a hanes merched y myd Gwleidyddiaeth yng Nghymru. Trwy ddefnydd helaeth o Zoom fe lwyddon ni i ganlyn ymlaen i gyfarfod yn rheolaidd a thrafod ein cynnydd yn y prosiect yn ogystal â dal ymlaen â'n diddordebau personol. Fe lwyddon ni hyd yn oed i gynnal ein cyfarfod blynyddol ar Zoom – gorchest dechnolegol os bu un erioed! Wn i ddim a fydd unrhyw beth yn llwyddo i'n llorio ni eto!



*Dr. Dinah Evans*

Ac yna rwy'n dod at Gapel Ebeneser, Rhydaman. Mae byw ar Ynys Môn yn golygu mod i ymhell iawn o'r Tŷ Cwrdd ar fore Sul, a dim cyfle i fynd draw ar daith i'r De hyd yn oed oherwydd Covid.

Ond fe fu John Talfryn ac Einir yn casgu'r praidd ynghyd ar ZOOM, o'u cartref i ddechrau pan oedd y capeli ar gau ac yna yn ddiweddar o'r capel ei hun wedi'r llacio. Rydwi wedi llwyddo i fod yn rhan o gymdeithas capel Ebeneser, fel fy chwaer sy'n byw ger Birmingham. Dyna beth da dros gyfnod y clo oedd cael gweld wynebau cyfarwydd a chlywed lleisiau diolch i Zoom, ac yna i fod yn rhan o gynulleidfa cwrdd y bore yn Ebeneser.

Cyn y Clo doeddwn i ddim yn arfer cynadledda arlein. Oedd, roedd ambell i gyfarfod o Archif Gwragedd Cymru, ond fyddwn i erioed wedi breuddwydio defnyddio technoleg fel ffordd o gysylltu o gartref gyda neb. Ond yna, mewn chwinc, fel llawer ohonoch chi mae'n siwr, fe ddois i dderbyn a chofleidio'r cyfrwng newydd, o ddarlithiau arlein i ddathliadau deugain oed, a hyd yn oed foreau coffi rhithiol! Rydyn ni i gyd wedi meistroli sgiliau na freuddwydion ni amdanyn nhw, ac mae fy mywyd i wedi bod yn llawn mewn ffordd na na allwn i fod ei dychmygu mewn cyfnod Clo, a hynny oll oherwydd Zoom.

# Monacella

**Einir Jones**



Melangell a'r Ysgyfarnog

***llun:*** genderdesk.wordpress.com

Fel y niwl ar lethau'r Berwyn mae hanes tarddiad a theulu Melangell yn annelwig a rhithiol. Gwyddeles? Cymraes? Ei thad yn frenin lleol neu yn arglwydd o'r Ynys Werdd? Efallai bod ei gwreiddiau yn Ystrad Clud (Strathclyde) neu ei bod yn perthyn trwy Tudwal i Macsen Wledig a Helen o Gaer Saint yn Arfon. Anodd dweud i unrhyw sicrwydd pendant beth oedd ei gwehelyth.

Ei dyddiadau felly? Pwy ŵyr – tua'r seithfed ganrif yw'r dyfaliad agosaf – efallai, ond fe allai fod unrhyw bryd rhwng y chweched ganrif a'r wythfed yn y diwedd. Digon dweud ei bod hi, Melangell, wedi dod i ardal Pennant ger Llangynnog i chwilio am dangnefedd a llonyddwch rhwng y bryniau oesol ac yn y cwm cul. Efallai ei bod yn osgoi priodas anaddas (fel Dwynwen) hyd yn oed. Beth bynnag, cyrhaeddodd y dyffryn tawel a diarffordd ac ymsefydlu yn ddiganiatad yno a byw yn agos i natur.

Ond un dydd daeth haid o helwyr heibio gyda'u harweinydd – Brochfael neu Brochwel Ysgythrog (Brochfael Arw), Tywysog Powys o Bengwern – lle mae tref Amwythig nawr. Roedd y gwŷr ar drywydd ysgyfarnog ond fe redodd hi o'u blaenau trwy glawdd o ddrain i noddfa Pennant. Pan gyrhaeddodd y dynion trwy'r drain beth welon nhw ond merch ifanc yn penlinio mewn gweddi a'r ysgyfarnog yn cuddio ac edrych allan arnynt o dan ymyl ei mantell. Cydiodd Brochfael yn ei gorn hela a'i godi at ei wefus ond er chwythu ni ddeuai yr un sŵn o'r corn ac ni allai'r tywysog ei ollwng o'i enau wedyn chwaith hyd nes i'r ferch ifanc roi amnaid a'i ryddhau. Rhedodd y cŵn hela ymaith mewn braw.

Gan ei fod wedi ei swyno gan ei harddwch a'i hysbryd a'i hagwedd heddychlon aeth Brochfael ati i siarad a dod i ddeall am ei hoffter o anifeiliaid gwyllt ac o'r cwm hyfryd. Rhoddodd yr hawl iddi i fyw yno weddill ei hoes o fewn y gornel hon o'i deyrnas ac fe adeiladwyd eglwys fach yno ym Mhennant Melangell. Un bren oedd hi i ddechrau mae'n sicr. Dywed un traddodiad fod y santes yn byw yn yr eglwys fach ac yn cysgu mewn cell fechan ym mhen dwyreiniol yr eglwys. Cell y Bedd yw'r enw ar y fan. Dywed traddodiad arall bod ei gwely ar yr ochr draw i'r eglwys, ar silff o garreg ar lepen y graig tua chwarter milltir i'r de. Pwy ŵyr?

Ond bu fyw y traddodiad am hoffter Melangell o ysgyfarnogod hyd ddechrau'r ganrif ddiwethaf o leiaf. Doedd hi ddim yn arferiad hela na saethu un o Ŵyn Melangell – fel y gelwid ysgyfarnogod yn yr ardal - ac fe gredid os byddai rhywun yn gweld hela ysgyfarnog mai'r unig beth a ddylid ei ddweud oedd galw yn uchel “Duw a Melangell a'th gadwo” ac y byddai'r creadur diniwed yn dianc yn rhydd. Mae son am y santes mewn hen gerdd sydd wedi ei hysgrifennu yng nghofnodion yr eglwys fach yn 1723 a dyma gwpled bach diddorol:

Mil engyl a Melangell
Trechant lu fyddin y fall.

Hynny ydyw bod mil o angylion a Melangell gyda'i gilydd yn gallu trechu holl lu byddin Uffern.

Yn adeg Harri VIII a'r hollt gyda Rhufain fe ddinistiwyd sawl ffenest wydr a sawl ffynnon rinweddol a sawl seintwar ym Mhrydain gyfan

a digwyddodd yr un peth ym Mhennant. Tynnwyd y greirfa arbennig i lawr a defnyddio'r meini oedd ynddi o amgylch y fynwent fel roedd angen. Ond gadawyd digon o olion yn y mur i ail-adeiladu'r seintwar fechan yn ei dull gwreiddiol a Rhufeinaidd (Romanesque) ac mae hi yno wedi ei hadfer heddiw, yr hynaf o'i bath ym Mhrydain mae'n bosib. Mae'r sgrin dderw sy'n gwahanu'r gangell yn ei lle ers y bymthegfed ganrif o leiaf a bu yma fan addoli am dros fil a dau cant o flynyddoedd o bosib. Mae'r coed Yŵ o amgylch yn fynwent dros ddwy fil o flynyddoedd oed o leiaf. Bu William Morgan yn Rheithor yma (1588-95) ynghyd â Llanrhaeadr ym Mochnant.



*Y Seintwar wedi ei hadfer i'w gogoniant*

*Llun: en.wikipedia.orguttuhuy*

Mae gan y gofaint Rhiannon o Dregaron ddynluniad o ysgyfarnogod ar ei gemwaith hardd. Ar adeg yr Eisteddfod ym Meifod fe luniwyd drama-gerdd am fywyd y santes Melangell gan Theatr Tir Na Nog sy'n dangos bod lle i gofio ei hanes a'i gwerthoedd a ddaeth yn dderbyniol eto, hyd yn oed yng nghanol rhuthr y byd modern. Mae'r eglwys a'r cwm heddychlon yn Nyffryn Tanat yn gyrchfan pererinion hyd heddiw ac fe gafwyd iachad corfforol ac ysbrydol yno dros y canrifoedd. Dydd cofio Melangell yw Mai 27ain. Wrth gloi rwyn dyfynnu:

Gweddi'r Pererin:

Diolch i Ti Arglwydd am fywyd ac am weddiau dy lawforwyn, Melangell.

Boed ei gofal a'i thosturi am dy holl greaduriaid a dy holl greadigaeth yn ein hysbrydoli ni heddiw.

Boed i ni ddysgu fel Melangell i weld dy ogoniant Di yn y byd hyfryd rwyt Ti wedi ei greu o'n hamgylch ac inni.

# Fy Mhrofiad gydag Eliffantod

## gan Lisa Jones, Gwaun cae Gurwen

Mae gen i gariad mawr tuag at anifeilaid ac at deithio i'w gweld, a thros y blynyddoedd fe fum i'n ddigon ffodus i allu cyfuno'r ddau beth. Rydwi wrth fy modd yn ymweld â gwledydd pellenig a phrofi ffyrdd newydd ac egsotic a gwahanol o fyw, ymhell o fywyd syml Cymru fach. Rwy wrth fy modd yn gweld sut mae eraill yn byw ledled y byd, yn cael profi eu diwylliannau hwy a dysgu am eu ffydd a'u traddodiadau a'u gwahanol hanes, blasu eu bwyd yn ogystal â gweld anifeiliaid o bob math, maint a lliw yn eu hamgylchfyd naturiol.

Ond o blith y cyfan a brofais i hyd yma mae gen i le arbennig yn fy nghalon i eliffantod. Allai ddim mo'u gweld fel creaduriaid mawr, trwsgwl ac afrosgo ond yn hytrach rwy'n gweld pob eliffant fel cawr caredig y gwyllt. Rwy'n dwli arnyn nhw. Rwy wedi eu gweld yn troedio yn araf a gofalus ar hyd traciau, ar ffyrdd prysur, mewn fforestydd ac ar baith agored ac i mi mae nhw'n osgeiddig a gofalus. Mae nhw'n dewis eu camau yn bwyllog gan sicrhau nad ydyn nhw'n gweud niwed i neb na dim nac iddynt eu hunain. Welais i erioed yr ochr gas i'r un ohonynt, ond mi glywais bod y rhai gwryw yn gallu bod yn beryglus, yn enwedig yn y cyfnod caru a chymharu.

Fe gwrddais i eliffantod yn Sri Lanka, India a Thailand a phob tro rwyf wedi cyfarfod â chreaduriaid addfwyn, caredig a thyner. Y 2012 tra yn Chang Mai fe gawsom ymweld â Noddfa Eliffantod. Roedd yn brofiad arbennig. Fe gawsom ni gyfle i gyfarfod ac eliffant ifanc iawn. A dweud y gwir roeddwn i damed yn ofnus oherwydd er ei fod yn fabi roedd lawer yn fwy na fi! Pan ddaeth fy nhro i'w gyfarfod mae'n rhaid ei fod yn deall fy mhryder oherwydd teimlais rywbeth yn cyffwrdd fy ysgwydd yn ysgafn.

Edrychais i fyny a gweld ei drwnc. Roedd fel petai'n dweud wrthyf "Paid bod ag ofn. Tyrd i ddweud Helo."

Fe wnes.

Fe drysorai'r profiad am byth.

Yn Sri Lanka fe welais haid o eliffantod gwyllt. Dywedodd ein tywysydd arbennig a gwybodus stori wrthym ni. Roedd yn un drist, ac fe soniodd am Major Rogers, swyddog yn y fyddin Brydeinig.

Roedd Rogers yn byw yn Sri Lanka yn yr 1840au ac roedd wedi saethu 1,000 o eliffantod yn ystod ei fywyd yno. Soniodd y tywysydd am eliffant bach a welodd Rogers yn saethu ei deulu. Cymrodd Rogers yr eliffant ifanc hwnnw er hynny i fyw gydag ef ond unwaith y tyfodd fe ymosododd ar Rogers. ‘Dyw eliffantod byth yn anghofio medden nhw. Ond nid yr ymosodiad fu achos marwolaeth Rogers. Un dydd cyfarfu â hen fynach Bwdistaidd a dywedodd hwnnw wrtho fod ei amser ar y ddaear hon bron ar ben ac y byddau'n cael ei losgi gan fellt y nefoedd am ei holl ddrygioni. Ac yn wir, o fewn y flwyddyn, roedd Rogers yn farw. Trawyd ef gan fellten ac fe losgodd yn ulw. Cafodd ei gladdu yn Newera Ellia ac fe godwyd carreg ar ei fedd

Ond yn fuan wedi hynny fe drawyd y bedd gan fellten a thorrodd y maen yn bedwar darn. Mae'r bedd arbennig yma wedi ei daro sawl gwaith drosodd ers hynny ac wedi ei niweidio'n gyson gan fellt. Does dim dowt and yw'r cyfan yn arwydd o farn Duw ar ddyn mor ofnadwy.



*Teulu o eliffantod gwylltion ar y paith agored*



*Cwrdd â'r babi oedd yn fwy o lawer na fi!*



*Noddfa Eliffantod*

---



# Adroddiad yr Ysgrifennydd

Y Chw. Bonni Davies

Erbyn i'r rhifyn yma o Cwlwm fod yn eich llaw, fe fyddwn wedi camu mewn i'r pumed mis o'r flwyddyn hon. Er na fu modd inni gyfarfod yn y cnawd o gwbl yn ystod 2021, mae llawer gyda ni fel Mudiad i fod yn ddiolchgar amdano.

**Cwlwm** - Llwyddwyd i gynhyrchu dau rifyn arall o "Cwlwm", un ar y we a'r llall yn gopi caled, a diolchir i bawb a anfonodd gyfraniadau, i Einir Jones am y cysodi, ac i Gwen Vaughan yn Swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru am argraffu rhifyn mis Medi. Argraffu yn ôl y gofyn fu'r hanes ym mis Medi gan i nifer barhau i'w dderbyn dros y we. Mae Cwlwm hefyd yn cael ei osod ar wefan Undeb Bedyddwyr Cymru. Rhaid diolch yn arbennig iawn hefyd i eglwys Heol y Parc, Rhuthun am y rhodd hael iawn gawsom oddi wrthynt tuag at gynhyrchu Cwlwm.

**Cyfarfod Blynyddol Rhithiol 2021** - Llwyddwyd hefyd i gynnal oedfa hyfryd dros ben, o dan ofal chwiorydd y Tabernacl Caerdydd, ar y diwrnod y dylwn fod wedi cynnal y Cyfarfod Blynyddol y Mudiad yn y Tabernacl. Llywiwyd yr oedfa gyda'r thema 'Gofal' gan ein llywydd Eleri Lloyd Jones. Darllenwyd gan Catrin Lloyd ac Ann Williams, a gweddïwyd gan Linda Gruffudd, cyn i Ruth Davies yr is-lywydd gyflwyno hanes Prosiect 'Croeso Butetown', sef prosiect i ailgartrefu teulu o Syria yn y brifddinas. Diolchir i bawb a fu'n rhan o lwyddiant yr oedfa fendithiol hon a diolch i bawb â ymunodd gyda ni.

**Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd** - Llwyddwyd hefyd i gynhyrchu'r Oedfa Dydd Gweddi ar gyfer Tachwedd. Diolch i'r Barchg Jill Tomos am ei gwaith cyfieithu ac addasu ac i bawb a drefnodd gyfarfodydd. Yn bersonol, hoffwn ddiolch am gael ymuno gydag eglwysi Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion ac eglwys Emaus yn eu cyfarfodydd ar Zoom.

**Gwau a Gwnïo** - Bu'r cyfnodau clo'n gyfle arbennig i bobl barhau gyda'r ymgyrchoedd gwau a gwnïo wrth gwrs. Diolch yn arbennig iawn am yr holl wau sydd wedi bod yn mynd ymlaen gan ein chwiorydd. Llwyddwyd i anfon y 'tedi bêrs' i gyd drwy'r post i gydlynydd "Knitting Teddies for Charity" sy'n byw yn Bradford-on-Avon. Dosbarthwyd y gwau arall i gyd i Gydlynydd Cymru o "Project Linus UK" sy'n digwydd byw yn Aberteifi (cyfleus iawn i mi!). Gallwch weld canran fach o'r amrywiaeth a dderbyniais yn y llun isod/uchod. Rydym yn parhau i dderbyn ffrogiau bach wedi eu gwnïo hefyd er nas derbyniwyd y rheini yn 2021.  Plîs daliwch ati felly i gadw'r dwylo 'na'n brysur!



**Pwyllgor Gwaith 2022** - Cymysg fu'r ymatebion pan gysylltwyd gyda chanran helaeth o'r Pwyllgor Gwaith ynghylch cyfarfod wyneb yn wyneb ym Mhenrhyn-coch ar gyfer y Pwyllgor Gwaith ar y 10fed Mawrth. Roedd rhai'n gyffrous ac yn awyddus iawn i gyfarfod wyneb yn wyneb; rhai'n bendant nad oeddent yn barod i gyfarfod wyneb yn wyneb eto; rhai'n betrusgar ac yn ansicr am y peth. Yn y diwedd penderfynwyd mai bod yn ddiogel oedd orau a'n bod yn cyfarfod drwy gyfrwng fideo gynadledda "Zoom".

**Colledion** – Ddechrau'r flwyddyn eleni, collodd y Pwyllgor Gwaith ddwy a gyfrannodd yn helaeth ar hyd y blynyddoedd i waith y Mudiad. Gweithredodd y ddiweddar chwaer Mary Wynne Jones fel Ysgrifennydd y Mudiad o 1965-1971 ac fel Llywydd yn 1973. Bu'n flaenllaw iawn ym mreuddwyd y Mudiad o sefydlu cartrefi'r henoed a gweithredodd fel ysgrifennydd Bryn Llifon. Anrhydeddwyd y ddiweddar chwaer Mair Garnon James i lywyddiaeth y Mudiad yn

1985, bu hithau hefyd yn allweddol i sefydlu'r cartrefi ac yn ysgrifennydd Apêl i Glyn Nest. Mae bywydau pawb ohonom yn gyfoethocach o fod wedi adnabod y ddwy a buom yn ffodus iawn i gael eu benthyg am gyfnod mor hir.

**Codwyd holl gyfyngiadau covid-19 ar 28ain Mawrth 2022, a mawr obeithir felly y bydd eleni'n fwy ffafriol o ran gallu gweld ein gilydd fel chwiorydd**.

**Cyfarfod Blynyddol 2022** – Gyda sefyllfa'r Covid-19 i'w weld yn gwella, edrychir ymlaen yn fawr at gael cyfarfod wyneb yn wyneb yn y Tabernacl Caerdydd ddydd Mercher, 14eg Medi am 2.00 a 5.30 o'r gloch, pan fydd y chwaer Ruth Davies yn cael ei dyrchafu'n llywydd a'r chwaer Eleri Lloyd Jones yn cael camu i lawr o'r swydd ar ôl dwy flynedd ychwanegol.

**Is-lywydd y Mudiad 2022-23** - Ym Mhwyllgor Cyffredinol y Mudiad yng Ngorffennaf 2021, argymhellwyd gofyn i'r chwaer Siân Elin Thomas i weithredu fel is-lywydd 2022-2023, ac roedd Pwyllgor Gwaith mis Mawrth yn llawenhau iddi dderbyn yr anrhydedd. Erbyn hyn mae'r Parchedig Siân Elin yn weinidog ar ddwy eglwys ac yn gaplan rhan amser yng Nghartref Glyn Nest. Edrychir ymlaen at ei chyflwyno i bawb ym mis Medi.

**Glyn Nest** - Mae Glyn Nest wedi ei chael hi'n anodd codi nôl ar ei draed yn dilyn y pandemig. Mae'r lefelau staffio'n isel, bu'n rhaid dibynnu llawer ar asiantaethau i lenwi'r bylchau, ac er bod rhestr aros, nid oes modd cymryd mwy o ddeiliaid i mewn. Rhwystrwyd llawer o waith cynnal a chadw hefyd oherwydd y cyfyngiadau Covid. Ar ochr bositif, maent yn falch iawn o fod wedi gallu cyflogi caplan rhan amser ac mae Siân Elin eisoes wedi bod yn gaffaeliad i'r cartref. Croesi'r bysedd nawr y bydd modd cynnal y Dydd Agored eleni ar y dydd Mercher olaf mis Awst. Mae colli'r diwrnod hwnnw dros gyfnod o ddwy flynedd wedi golygu cryn ostyngiad i'r coffrau. Wedi dweud hynny, diolchir o waelod calon i bawb sy'n parhau i gofio a chyfrannu at y cartref - yn unigolion, eglwysi a Chymanfaoedd a diolchir yn arbennig i Gorfforaeth yr Undeb am bob cefnogaeth.

**Prosiect y Mudiad** - Derbyniwyd eisoes rhai oedfaon ar gyfer ein prosiect nesaf ar y thema “Gofal”. Ein gobaith yw y bydd y llyfryn o wasanaethau cyflawn yn barod i’w lansio yn y Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghaerdydd ym mis Medi. Cyn hynny, bydd rhaid rhoi trefn arnynt, eu gosod a’u hargraffu. Gofynnir yn garedig felly i’r cyfraniadau gael eu hanfon ataf erbyn 7fed Gorffennaf. Ewch ati ar frys felly chwiorydd er mwyn cwblhau’r prosiect!

---

# Torth Weetabix

1 gwpanaid o Weetabix (neu beth tebyg o Aldi neu Tesco)

1 gwpanaid o siwgwr

1 gwpanaid o lefrith

1 gwpanaid o ffrwythau fel sultanas

Ychydig o geirios

Llond llwy de o sbeis



*Llun: greedygourmet*

Rhowch rhain i gyd mewn bowlen a’u gadael dros nos. Bore wedyn ychwanegwch:

1 wy mawr

1 gwpanaid o Flawd Codi (S.R.)

Ychydig o Almond Essence

Leiniwch dun 2lb gyda phapur menyn. Tywallt y gymysgedd iddo.

160 gradd /Nwy 3 am tua awr i awr a chwarter– chi’n adnabod eich ffwrn! Rhowch sgiwer i mewn ynddi ar ol 50 munud. Gallwch roi cnau ar y top os mynnwch.

Sgleisio pan yn oer a rhoi menyn os hoffwch. Mae’n cadw’n dda.